CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2293 (Cy. 181 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

O dan Ran II o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 ("y Ddeddf"), mae'n ofynnol i'r awdurdodau lleol wneud trefniadau i'w swyddogaethau gael eu cyflawni gan weithrediaethau y mae'n rhaid iddynt fod yn un o'r mathau a bennir yn adran 11(2) i (4) o'r Ddeddf neu mewn rheoliadau o dan adran 11(5). Mae adran 25 o'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r awdurdodau lleol lunio cynigion ar gyfer trefniadau gweithrediaeth. Mae adran 31 o'r Ddeddf yn caniatáu i awdurdod lleol y mae'r adran honno'n gymwys iddo lunio cynigion ar gyfer trefniadau amgen o fath penodol a ganiateir gan reoliadau o dan adran 32 o'r Ddeddf. Mae'r rheoliadau hyn yn cynnwys gofynion ynglŷn â'r cynigion hynny ar gyfer trefniadau amgen.

Mae rheoliad 3(1) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod gymryd camau rhesymol i ymgynghori ac mae'r ymagwedd y dylai'r awdurdod ei chymryd at yr ymgynghori wedi'i nodi yn rheoliad 3(2). Mae rheoliad 3(4) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod benderfynu pa fath o drefniadau amgen i'w gynnwys yn ei gynigion ac i gydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan y Cynulliad Cenedlaethol. Mae rheoliad 3(5) yn pennu'r materion y mae'n rhaid eu cynnwys yn y cynigion ac mae rheoliad 3(6) yn ei gwneud yn ofynnol bod copi o'r cynigion a'r wybodaeth sy'n cyd-fynd â hwy yn cael ei anfon i'r Cynulliad Cenedlaethol. Mae'r gofyniad i awdurdod weithredu ei gynigion ar gyfer trefniadau amgen yn unol â'r amserlen a gynhwysir yn y cynigion hynny wedi'i nodi yn rheoliad 3(7).

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2293 (W. 181 )

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## Local Authorities (Proposals for Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001

### EXPLANATORY NOTE

*(This note does not form part of the Regulations)*

Under Part II of the Local Government Act 2000 ("the Act"), local authorities are required to make arrangements for the discharge of their functions by executives which must take one of the forms specified in section 11(2) to (4) of the Act or in regulations under section 11(5). Section 25 of the Act requires local authorities to draw up proposals for executive arrangements. Section 31 of the Act permits a local authority to which that section applies to draw up proposals for alternative arrangements of a particular type permitted by regulations under section 32 of the Act. These regulations contain requirements as to those proposals for alternative arrangements.

Regulation 3(1) requires an authority to take reasonable steps to consult whilst the approach which the authority should take to its consultation is set out in regulation 3(2). Regulation 3(4) requires an authority to decide what form of alternative arrangements to include in its proposals and to comply with any directions given by the National Assembly. Regulation 3(5) specifies the matters which must be included in the proposals and regulation 3(6) requires that a copy of the proposals and accompanying information be sent to the National Assembly. The requirement for an authority to implement its proposals for alternative arrangements in accordance with the timetable included in those proposals is set out in regulation 3(7).

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2001 Rhif 2293 (Cy. 181 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001

| | |
|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | *21 Mehefin 2001* |
| *Yn dod i rym* | *28 Gorffennaf 2001* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 31(7), (8), (9) ,105(2) a 106 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**a**), a phob pŵer arall sy'n ei alluogi yn y cyswllt hwnnw.

**Enwi, chychwyn a chymhwyso**

**1**.-(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001 a deuant i rym ar 28 Gorffennaf 2001.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas ag awdurdodau lleol yng Nghymru.

**Dehongli**

**2**. Yn y Rheoliadau hyn -

ystyr "awdurdod lleol" ("local authority") yw awdurdod lleol y mae adran 31 o'r Ddeddf (trefniadau amgen yn achos awdurdodau lleol penodol) yn gymwys iddo;

ystyr "cynigion" ("proposals") yw cynigion o dan adran 31 o'r Ddeddf ar gyfer gweithredu trefniadau amgen;

ystyr "y Ddeddf" ("the Act") yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.

**Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen**

**3**.-(1) Er mwyn llunio cynigion rhaid i awdurdod lleol gymryd camau rhesymol i ymgynghori â'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod, a phersonau eraill ynddi sydd â buddiant, a rhaid iddo gydymffurfio â pharagraffau (2) a (3) wrth gynnal yr ymgynghori hwnnw.

(a) 2000 p.22

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2001 No. 2293 (W. 181 )

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

## Local Authorities (Proposals for Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001

| | |
|---|---|
| *Made* | *21st June 2001* |
| *Coming into force* | *28th July 2001* |

The National Assembly for Wales makes the following Regulations in exercise of the powers conferred upon it by sections 31(7), (8), (9),105(2) and 106 of the Local Government Act 2000(**a**), and of all other powers enabling it in that behalf.

**Citation, commencement and application**

**1**.-(1) These Regulations may be cited as the Local Authorities (Proposals for Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001 and shall come into force on 28th July 2001.

(2) These Regulations apply in relation to local authorities in Wales.

**Interpretation**

**2**. In these Regulations -

"the Act" ("y Ddeddf") means the Local Government Act 2000;

"local authority" ("awdurdod lleol") means a local authority to which section 31 of the Act (alternative arrangements in the case of certain local authorities) applies;

"proposals" ("cynigion") means proposals under section 31 of the Act for the operation of alternative arrangements.

**Proposals for Alternative Arrangements**

**3**.-(1) For the purpose of drawing up proposals a local authority must take reasonable steps to consult the local government electors for, and other interested persons in, the authority's area and shall comply with paragraphs (2) and (3) in undertaking that consultation.

(a) 2000 c.22

(2) Wrth gynnal yr ymgynghoriad sy'n ofynnol o dan baragraff (1), rhaid i awdurdod lleol, os oes mwy nag un math o drefniadau amgen yn cael ei ganiatáu gan reoliadau o dan adran 32 o'r Ddeddf:

(a) disgrifio a mynegi mewn ffordd deg a chytbwys bob un o'r mathau o drefniadau amgen sy'n cael eu caniatáu am y tro gan reoliadau o dan adran 32 o'r Ddeddf;

(b) sicrhau bod gan etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod, a phartïon eraill ynddi sydd â buddiant, yn cael cyfle i fynegi eu dewis yn glir o blaid unrhyw un o'r mathau hynny o drefniadau amgen; a

(c) defnyddio cyfuniad o ddulliau ymgynghori ansoddol a meintiol.

(3) Wrth gynnal yr ymgynghori sy'n ofynnol o dan baragraff (1), rhaid i awdurdod lleol (p'un a oes mwy nag un math o drefniadau amgen yn cael ei ganiatáu gan reoliadau o dan adran 32 o'r Ddeddf neu beidio):

(a) sicrhau bod pob etholwr lleol ar gyfer ardal yr awdurdod, a phartïon eraill ynddi sydd â buddiant, yn cael cyfle i ymateb i'r ymgynghori hwnnw; a

(b) peidio â chynnwys yn yr ymgynghori hwnnw unrhyw ymgynghori y mae'r awdurdod wedi penderfynu ei gynnal er mwyn cyflwyno sylwadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefnu bod math penodol o drefniadau amgen ar gael mewn rheoliadau o dan adran 32 o'r Ddeddf.

(4) Wrth lunio ei gynigion, rhaid i awdurdod lleol -

(a) penderfynu pa fath o drefniadau amgen sydd i'w gynnwys yn y cynigion; a

(b) cydymffurfio ag unrhyw gyfarwyddiadau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn.

(5) Rhaid i awdurdod lleol gynnwys yn ei gynigion -

(a) datganiad (drwy gyfeirio at reoliadau sy'n cael eu gwneud o dan adran 32 o'r Ddeddf) ynghylch y math penodol o drefniadau amgen y mae'r cynigion yn ymwneud â hwy;

(b) disgrifiad o rolau'r awdurdod ei hun o dan y trefniadau arfaethedig;

(c) datganiad ynghylch y nifer o bwyllgorau ac is-bwyllgorau y mae'r awdurdod yn bwriadu eu sefydlu ar gyfer cyflawni'r swyddogaethau y mae'r awdurdod yn bwriadu iddynt gael eu cyflawni gan y pwyllgorau a'r is-bwyllgorau hynny o dan y trefniadau amgen arfaethedig;

(ch) disgrifiad o'r trefniadau arfaethedig sydd i'w cynnwys yn y trefniadau amgen arfaethedig ar gyfer gweithredu pwyllgorau neu is-bwyllgorau i adolygu penderfyniadau a wnaed,

(2) When undertaking the consultation required by paragraph (1) a local authority must, if more than one type of alternative arrangements is permitted by regulations under section 32 of the Act:

(a) describe and represent in a fair and balanced way each of the types of alternative arrangements for the time-being permitted by regulations under section 32 of the Act;

(b) ensure that in responding to that consultation local electors for, and other interested parties in, the authority's area have an opportunity clearly to express their preference for any of those types of alternative arrangements; and

(c) use a combination of qualitative and quantitative methods of consultation.

(3) When undertaking the consultation required by paragraph (1) a local authority must (whether or not more than one type of alternative arrangements is permitted by regulations under section 32 of the Act):

(a) ensure that all local electors for, and other interested parties in, the authority's area have an opportunity to respond to that consultation; and

(b) not include in that consultation any consultation which the authority has determined to conduct for the purpose of making representations to the National Assembly for Wales to make a particular type of alternative arrangements available in regulations under section 32 of the Act.

(4) In drawing up its proposals a local authority must -

(a) decide which type of alternative arrangements is to be included in the proposals; and

(b) comply with any directions given by the National Assembly for Wales for the purposes of these Regulations.

(5) A local authority must include in its proposals -

(a) a statement (by reference to regulations made under section 32 of the Act) of the particular type of alternative arrangements involved in the proposals;

(b) a description of the roles of the authority itself under the proposed arrangements;

(c) a statement of the number of committees and sub-committees the authority intends to establish for the discharge of the functions which the authority intend will be discharged by those committees and sub-committees under the proposed alternative arrangements;

(d) a description of the proposed arrangements to be included in the proposed alternative arrangements for the operation of committees or sub-committees to review or scrutinise

neu gamau eraill a gymerwyd, neu i graffu arnynt mewn cysylltiad â chyflawni swyddogaethau'r awdurdod;

(d) amserlen mewn perthynas â gweithredu'r cynigion;

(dd) manylion unrhyw drefniadau trosiannol y mae eu hangen er mwyn gweithredu'r cynigion;

(e) disgrifiad o unrhyw nodweddion eraill ar y trefniadau amgen arfaethedig y bydd yr awdurdod yn penderfynu eu cynnwys yn y cynigion; ac

(f) unrhyw wybodaeth arall y gofynnir amdani mewn cyfarwyddiadau a roddir gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

(6) Rhaid i awdurdod lleol anfon y canlynol i Gynulliad Cenedlaethol Cymru -

(a) copi o'i gynigion; a

(b) datganiad sy'n disgrifio -

(i) y camau a gymerodd yr awdurdod i ymgynghori â'r etholwyr llywodraeth leol ar gyfer ardal yr awdurdod, a phersonau eraill ynddi sydd â buddiant, yn unol ag adran 31(5) o'r Ddeddf a pharagraff (1) uchod;

(ii) canlyniad yr ymgynghori hwnnw ac i ba raddau y mae'r canlyniad hwnnw'n cael ei adlewyrchu yn y cynigion;

(iii) y rhesymau pam mae'r awdurdod yn credu y bydd ei gynigion yn fwy addas ar gyfer yr amgylchiadau yn yr awdurdod hwnnw a'i ardal nag unrhyw fath o weithrediaeth a bennir yn adran 11 o'r Ddeddf neu odani; a

(iv) y rhesymau pam mae'r awdurdod yn credu y byddai ei gynigion, o'u gweithredu, yn debyg o sicrhau bod penderfyniadau'r awdurdod yn cael eu gwneud mewn ffordd effeithlon, tryloyw ac atebol.

(7) Rhaid i awdurdod lleol weithredu ei gynigion yn unol â'r amserlen a gynhwysir yn y cynigion hynny.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**a**).

21 Mehefin 2001

decisions made, or other action taken, in connection with the discharge of functions of the authority;

(e) a timetable with respect to the implementation of the proposals;

(f) details of any transitional arrangements which are necessary for the implementation of the proposals;

(g) a description of such other features of the proposed alternative arrangements as the authority may determine to include in the proposals; and

(h) any such other information as may be required by directions given by the National Assembly for Wales.

(6) A local authority shall send to the National Assembly for Wales -

(a) a copy of its proposals; and

(b) a statement which describes -

(i) the steps which the authority took to consult the local government electors for, and other interested persons in, the authority's area, both pursuant to section 31(5) of the Act and to paragraph (1) above;

(ii) the outcome of those consultations and the extent to which that outcome is reflected in the proposals;

(iii) the reasons why the authority considers that its proposals will be more suitable for circumstances in that authority and its area than any form of executive specified in or under section 11 of the Act; and

(iv) the reasons why the authority considers that its proposals would be likely, if implemented, to ensure that decisions of the authority are taken in an efficient transparent and accountable way.

(7) A local authority must implement its proposals in accordance with the timetable included in those proposals.

Signed on behalf of the National Assembly for Wales under section 66(1) of the Government of Wales Act 1998(**a**).

21st June 2001

*D. Elis Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

The Presiding Officer of the National Assembly

(a)1998 p.38

(a) 1998 c.38

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

OFFERYNNAU STATUDOL

## 2001 Rhif 2293 (Cy. 181 )

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cynigion ar gyfer Trefniadau Amgen) (Cymru) 2001

**NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES**

STATUTORY INSTRUMENTS

## 2001 No. 2293 (W. 181 )

# LOCAL GOVERNMENT, WALES

Local Authorities (Proposals for Alternative Arrangements) (Wales) Regulations 2001

©Ⓗ Hawlfraint y Goron 2001

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2001

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 0-11-090277-7

9 780110 902777

**£2.00**

W/314/07/01 ON